

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	CYNGOR SIR YNYS MÔN
DYDDIAD:	18 MAI 2021
TEITL YR ADRODDIAD:	DATBLYGIAD AELODAU
AWDUR YR ADRODDIAD:	RHEOLWR HYFFORDDIANT – ADNODDAU DYNOL
SWYDDOG CYSWLLT :	MIRIAM WILLIAMS
PWRPAS YR ADRODDIAD :	DARPARU DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUNIAU AR GYFER RHAGLEN DATBLYGU A HYFFORDDI AELODAU 2021 - 2022

1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu'r Cyngor Llawn â throsolwg o'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer eu cynnig fel cyfleoedd datblygu i Aelodau Etholedig yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

2. CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Yn amlwg, mae'r pandemig presennol wedi cael effaith ar y ddarpariaeth hyfforddiant dros y flwyddyn gyda gweithgareddau cyfyngedig wedi eu cynnig i Aelodau Etholedig. Yn gyffredinol, cyfleoedd E-ddysgu a sesiynau briffio sydd wedi eu cynnig.

Mae trafodaethau â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, Arweinyddion Grwpiau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cadarnhau mai'r canlynol y dylid canolbwyntio arnynt yn ystod 2021-2022:

- Hyfforddiant Mandadol
- Hyfforddiant iPad
- Hyfforddiant Deddfwriaethol
- Sesiynau Briffio

Bydd manylion hyfforddiant sydd ar gael felly'n cael eu hyrwyddo pan fydd y sesiynau wedi eu trefnu, gan sicrhau y rhoddir rhybudd digonol.

Mae copi o adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 16 Mawrth 2021 i'w weld drwy y linc yma:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s17002/Datblygu%20Aelodau.pdf?LLL=1>

3. ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL (PDR) AR GYFER AELODAU

O ran y data a gasglwyd o'r adolygiadau Data Personol, bydd y gofynion yn cael eu hystyried fel y nodwyd uchod.

4. DARPARIAETH HYFFORDDIANT

Ar nodyn cyffredinol, am resymau cadw pellter cymdeithasol, nid yw dulliau traddodiadol o ddarparu Hyfforddiant wedi bod yn opsiwn dros y 12 mis diwethaf. Tra cynhelir adolygiad o drefniadau Covid o ran sesiynau ystafell ddsbarth, mae'n debygol iawn y bydd Hyfforddiant/sesiynau briffio yn y dyfodol yn parhau i gael eu cynnal drwy gyfryngau megis MS Teams/Zoom a drwy ddefnyddio cyfryngau E-ddysgu'r Cyngor, Learning Pool.

Mae Hyfforddiant ac arweiniad ar y defnydd o MS Teams / Zoom wedi bod ar gael i Aelodau Etholedig er mwyn hwyluso cyfraniad Aelodau i gyfarfodydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, mae canllawiau ar ffurf llyfrynnau/fideos ar gael er mwyn cynorthwyo mynediad.

Mae modiwlau E-ddysgu, y gellir cael mynediad iddynt drwy blatfform E-ddysgu Learning Pool yr Awdurdod yn parhau i fod ar gael, gyda lefel gynyddol o wybodaeth yn cael ei hychwanegu yn wythnosol. Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu ar hyn o bryd yn datblygu Adran Aelodau Etholedig ar blatfform E-ddysgu'r Awdurdod er mwyn gallu sicrhau gwell mynediad at wybodaeth am ddigwyddiadau Hyfforddiant/iechyd a llesiant. Y bwriad yw lansio hyn ddechrau'r Haf.

Yn ôl yr arfer, mae cefnogaeth o ran sgiliau TG ar gael ar sail 1-1/grŵp os oes angen.

5. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Hyfforddiant ar trosglwyddiad cysylltiedig ar gyfer 2021/22, fel y manylir yn yr adroddiad yma.

**MIRIAM WILLIAMS
RHEOLWR HYFFORDDIANT AD
MAI 2021**

